

## **Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon a gynhaliwyd Gorffennaf 2 o Fedi 2015 am 7 - 0 o'r gloch.**

### **Minutes of Llangoed + Penmon Community Council meeting held on 2nd September 2015 at 7pm.**

**1. Croeso/Welcome** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Cadeirydd, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.

*Meeting was opened by the Chairperson by extending a warm welcome to everyone in attendance.*

**Presennol/Present** - Cynghorwyr Keith Williams (Cadeirydd), Ruth Roberts, Mary Ellis, Alan Owen, Lewis Davies, Gareth Moore, Ann Sutton, Carwyn Jones a Geraint Parry (Clerc).

**2. Ymddiheuriadau/Apologies**:- Wyn Hughes, Delyth Jones, Dafydd Roberts ac Alwyn Rowlands

### **3. Cofnodion/Minutes**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 8fed o Orffennaf fel rhai cywir gan Cyng. R Roberts, eiliwyd gan Cyng. M Ellis.

*Minutes of the previous meeting held on 8<sup>th</sup> July were accepted as accurate by Clr. R Roberts, seconded by Clr. M Ellis.*

### **4. Materion yn Codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes**

- Grant i Gwella Amgylchedd - Clerc dal i ddisgwyl cadarnhad gan y Cyngor Sir ynglŷn ar gais am arwydd fflachio cyflymder. / *Clerk is still waiting for confirmation from the County Council regarding our application for the flashing speed sign.*
- Llwybr ger Eglwys Penmon - Cyng. R Roberts yn adrodd fod angen cynnal a chadw mynedfa'r llwybr / *Footpath near Penmon Church - Clr R Roberts reported that the entrance to the footpath needs clearing.*
- Llwybr cyhoeddus ger Llyswyn - perchennog wedi gosod cerrig ger ochr y llwybr, yn beryglus i gerddwyr. Clerc i ysgrifennu iddo symud y cerrig / *Public footpath by Llyswyn - the householder has placed near the edge of the path which is dangerous to walkers. Clerk to send a letter to ask him to move the stones.*
- Clawdd yn gordyfu yn y man-troi yn Tawelfan - Cyng. L Davies i drafod y mater gyda'r Cyngor Sir / *Hedge is overgrown by the turning area in Tawelfan - Clr L Davies to raise the matter with the County Council.*
- Gwaith i dorri'r coed yn Warchodfa Wern a oedd yn tyfu dros i'r briff ffordd wedi ei wneud. / *Work on cutting the trees from Wern Nature Reserve growing over onto the road has been carried out.*
- Gwaith torri llwybr Lôn Ddŵr wedi ei wneud. / *Work on cutting the Ramsey Footpath has been done.*

### **5. Datgan Diddordeb/Declaration of interest**

- Cyng. L Davies ar bob cais cynllunio / *Clr L Davies on all planning applications*
- Cyng. M Ellis ar drafodaeth Grŵp Cymunedol. *Clr M Ellis on the discussion about the Community Group.*
- Cyng. A Owen a Cyng. G Moore ar drafodaeth Neuadd y Pentre' / *Clr. A Owen on the discussion about the Village Hall.*

### **6. Sylwadau Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications**

- 35C28B/TPO - Cais i ostwng goron 1 coeden sydd wedi eu diogelu gan Orchymyn Diogelu yn / *Application to crown raise 1 tree which is protected by a Tree Preservation order at - 12 The Pines, Penmon - dim penderfyniad / no decision.*
- 35C101H - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn / *Full application for the alterations and extension at Marian Newydd, Llangoed - dim gwrthwynebiad / no objection*
- 35C237D/VAR - cais o dan adran 73 i ddiwygio amod 01 o caniatad cais 35C237C er mwyn rhoi estyniad 5 mlynedd i ddechrae datblygiad yn / *application under section 73 for the variation of condition 01 from planning permission 35C237C so as to allow a further 5 years to commence development at Isfryn, Glanrafon - dim gwrthwynebiad / no objection.*
- 35C181D - Cais llawn ar ddymchwel annedd a garej presennol a chodi annedd a garej newydd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir yn / *Full application for demolition of existing dwelling and garage and erection of a replacement dwelling and garage together with the construction of a vehicular access on land at Ystablau, Penmon - cais wedi ei caniatáu / application has been granted*
- 35C87Q/LB - Cais am caniatad adeilad rhestredig ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i faes parcio ac ardal storfa yn / *Application for listed building consent for the conversion of outbuilding into*

*a parking area and a bin store area at Tros y Marian, Llangoed - mynegwyd pryderon ynghylch y cynnydd mewn traffig ar y lôn gul, ffordd mewn cyflwr gwael, mae'r safle o fewn AHNE / concerns were raised regarding the increase in traffic using the narrow lane, the lane is in a poor condition, also the site is within AONB.*

### **Er gwybodaeth / Information**

- 35C321 - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn / *Full application for alteration and extensions at 12 Tros yr Afon, Llangoed - wedi ei caniatu / has been granted.*
- 35C100H/VAR - cais o dan adran 73 i ddiwygio amodau 04,16,05,11 a 15 ar dir ger / *Application under section 73 for the variation of conditions 04,16,05,11 and 15 / on land adjacent to Glanrafon Cottage, Llangoed - wedi ei caniatu / has been granted.*
- 35C156B/VAR - cais o dan adran 73 i ddiwygio amod 01 o caniatad cais 35C156A er mwyn rhoi estyniad 5 mlynedd i gychwyn gwaith yn / *application under section 73 for the variation of condition 01 from planning permission 35C156A so as to allow a further 5 years to commence work at 1 Cae Person, Llangoed - wedi ei caniatu / has been granted.*

### **7. Adroddiad gan y Cynghorwr Lleol / Report by the County Councillor**

- 7.1 Lôn Lleiniog - disgwyl ymweliad gyda'r swyddog o'r Cyngor Sir. / *Waiting for a site visit with the Officer from the County Council.*
- 7.2 Dalar Las - cwynion eto ynglŷn â thorri'r clwadd / *Received complaints again regarding the cutting of the hedge.*
- 7.3 Tyllau ar y lôn ym Mhenmon a Caim / *Holes in the road in Penmon and Caim.*
- 7.4 Diwrnod Hwyl 29/08/15 - rhaid llongyfarch pwyllgor Ffrindiau Llangoed am drefnu'r digwyddiad llwyddiannus iawn, wedi casglu £643 / *Must congratulate the Committee of Ffrindiau Llangoed for organising this successful event, which raised £643.*
- 7.5 Lôn Wern - draen o dan y ffordd yn mynd i gael ei drwsio / *The drain under the road is going to be repaired.*
- 7.6 Enwi'r Stad newydd yn Llangoed / *Naming of the new estate in Llangoed - dilyn trafodaeth, penderfynwyd yn unfrydol i enwi'r stad newydd "Stad yr Ysgol" / following a discussion, it was unanimously decided to name the new estate "Stad yr Ysgol"*

### **8. Neuadd y Pentre' / Village Hall**

Sioe flodau wedi ei drefnu ar 5/09/15, cael ei ddilyn gan barti "Y Puffin" / *Flower Show has been arranged for 5/09/15, followed by the "Puffin" party.*

### **9. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed / Community Group**

- Dros yr haf, 68 o blant wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cae chwarae. / *Over the summer, 70 children have taking part in playground activities on the playing field.*
- Wedi bod yn llwyddiannus gyda grant Shell, ond yn anffodus oedd diffyg o £800 yn yr arian i bwrcasu ffrâm dringo. Ond nawr maent wedi gwneud yr arian i fyny drwy ddigwyddiad "Tour De Môn" / *Have been successful with Shell grant, but unfortunately there was a short fall of £800 to purchase a climbing frame. But now the fund has been made up through a "Tour de Môn" fund raising event.*
- Dilyn awdit ar y maes chware, mae angen arwydd "Dim Ysmygu" / *Following and audit of the playing area, we now need a "No Smoking Sign"*
- Ar 24/09 mae digwyddiad codi arian i elusen Macmillan yn Iolfa Pont y Brenin / *Macmillan fund raising event in the lounge at Pont y Brenin on 24/09.*

### **10. Prosiect Afon Lleiniog / Lleiniog Project**

Cyfarfod 7/09 wedi ei ganslo, wedi ei ail drefnu am 15/09. Cyng. G Moore yn adrodd fod gwaith da wedi ei wneud ar dorri llwybrau o amgylch y Castell. / *Meeting of 7/09 has been cancelled and re-scheduled for the 15/09. Cllr G Moore reports that good work had been done on cutting the footpaths around the Castle.*

### **11. Cartref Preswyl Haulfre / Residential Home**

Cyng. L Davies / Cyng. C Jones - wedi anfon tua 100 o gwestiynau ynglŷn ar sefyllfa i'r Cyngor Sir. Dilyn hyn cawsom ein galw i mewn i gyfarfod wythnos diwedda yn y Cyngor Sir lle cafwyd bron ein cyhuddo o ofyn gormod o gwestiynau. Trwy ofyn cwestiynau fel hyn, rydym wedi llwyddo i gael gwybodaeth ynglŷn â chronfa ymddiriedolaeth Rylands o £51k a gydag ymddiriedolaeth Chadwick o £39k. Mae'r Cyngor Sir yn gwario ar yr adeilad, tua £18k, ac yn mynd i wario mwy yno. Mae

gwybodaeth Haulfre nawr ar y we, a hyd heddiw wedi derbyn tua 200 o ymwelwyr. Hefyd daethom ar draws adroddiad 2008 gan Rheolwr Haulfre ar y tro, yn amlinellu angen en-suite ac yn awgrymu bod arian wedi ei neilltuo ar gyfer lifft newydd, adeg honno. Penderfynwyd y Cyngor Cymuned yn unfrydol i gefnogi'r cais am ymchwiliad llawn i mewn i Haulfre. Hefyd mae cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu ar 9/09/15 am 6.30 yn Neuadd y Pentre'. / *Have sent approx 100 question regarding the situation to the County Council. Following this we were called into a meeting last week at the County Council and were nearly accused of asking too many question. By asking these questions we have managed to obtain information regarding the Rylands trust fund - £51k. The County Council has recently spent on the building, approx. £18k and is going to spend more there. Haulfre's information is now available on line, up to today it has received about 200 visitors. Also came across a report in 2008 by the then manager of the home, outlining the need for en-suite and stating that money had been ring fenced for a new lift. Also, the Community Council has unanimously decided to support the request for a full enquiry into Haulfre. A public meeting has been arranged on 9/09/15 at 6.30pm in the Village Hall.*

## **12.Cyfrifon/Accounts**

### Taliadau / Payments:-

- Playsafety Ltd – arolwg maes chwarae plant / *playgroud inspection* - £96.00
- Zurich Insurance – yswriant blynyddol / *annual insurance* - £1,364.93
- Hacker Young – awdit 2014/15 / *audit 2014/15* - £246.00
- Countryside Management – cynnal a chadw llwybrau / *footpath maintenance* -£1,536.00

### Incwm / Income

- Wayleave - £163.48
- VAT - £1,109.52
- Canolfan Hamdden - £81.50
- Fynwent - £60.00
- Cymuned Llangoed - £500.00
- 2ail Presept / 2<sup>nd</sup> Precept - £3,206.00

## **13.Gohebiaeth/Correspondence**

Llythyr/Letter – Cyngor Sir / *County Council* – Blaenraglen Pwyllgor Gwaith / *Executive Committee Forward work programme*

Llythyr / *Letter* – Anrhydeddau Penblwydd y Frenhines / *Queens Birthday Honours*

Llythyr / *Letters* – Swyddfa Post / *Post Office*

E-bost/e-mail – Grant Gronfa Gwella Amgylchedd / *Environmental Community Improvement Grant*

Llythyr / *Letters* – Cyngor Sir / *County Council* - Haulfre

## **14. UFA/AOB:**

14.1 Llwybr tŷ cefn i'r Neuadd angen cynnal a chadw. Clerc i drafod y mater gyda SH / *Footpath at the rear of the Village Hall requires repairing. Clerk to discuss the issue with SH.*

14.2 Angen gwaith cynnal a chadw yn ffos ger Bay View / *Maintenance work required on the ditch by bay View.*

14.3 Wedi derbyn nifer o gwynion ynghylch y car sydd wedi ei barcio o flaen y giât fach sy'n arwain o'r fynwent y plwyf yn Eglwys St Cawrdaf. Mae yn cyfyngu mynediad i mewn ac allan o'r fynwent. Clerc i anfon llythyr i berchennog y car, a phwrcasu arwydd i osod ar y giât. / *Received a number of complaints regarding the car that is always parked in front of the small gate leading from the parish cemetery of St Cawrdaf Church. It is restricting access to and from the cemetery. Clerk to send a letter to the owner and purchase a sign.*

14.4 Mini Bus Canolfan Hamdden Biwmares - pa bryd mae defnydd y bws ar gael? Clerc i ofyn i bwyllgor y Canolfan / *Leisure Centre Mini Bus - when is the use of this bus available? Clerk to ask the Leisure Centre*

14.5 Cyng. A Sutton - yn adrodd bod bagiau baw ci wedi cael ei gosod ar y coed ger Castell Aberlleiniog / *reports that dog waste bags has been placed on the trees by Aberlleiniog Castle.*

14.6 Trafodwyd y pwyntiau a godwyd yn adroddiad arolwg maes Chwarae plant – angen gwaith ar y materion / *Discussed the points raised in the Childrens Play Area report – minor issues to be addressed.*

14.7 Gronfa Gwella Amgylchedd – grant ar gael hyd at £5,000, dyddiad cau 27/11/15 / *Environmental Community Improvement Grant is available to the value of £5,000, closing date 27/11/15.*

14.8 Clwb Pêl droed wedi bod yn llwyddiannus ennill dau grant o £5,469 a £300 i adnewyddu'r ystafell newid a gwella'r gegin / *Football Club have been successful in obtaining two grants of £5,469 and £300 to renovate the changing rooms and improve the kitchen.*

14.9 Cawsom ddiweddariad diweddaraf gan dwr Cymru. Ychydig o ymchwiliadau rhagorol, carthffosydd dim wedi dianc ers 15/01/15, dal i fflysio heibio'r Neuadd yn wythnosol / *Latest update from Welsh Water - no further escape from public sewer since 15/01/15. Continuing with weekly flushing by the Village Hall.*

14.10 Cyng. G Moore - mae adroddiadau bod person yn byw yn "rough" o amgylch y pentref. Clerc i godi'r mater gyda'r Heddlu. / *Reports that a person is living rough around the village. Clerk to raise the matter with the Police.*

14.11 Cyng. A Owen - wedi sylwi fod y bedd diweddaraf yn y fynwent y Plwyf wedi ei gosod yn agos iawn at yn feddau eraill, yn enwedig o safbwynt cynnal a chadw. Clerc i drafod y mater. / *has noticed that the latest grave in the cemetery has been placed very near to the other graves, especially from the maintenance point of view. Clerk to discuss the matter.*

14.12 Cyng. A Owen - Fferm Marian - dilyn caniatâd (Hydref 2014) i dorri coeden sycamorwydden ger llinell derfyn yr eiddo, mae nawr wedi plannu coeden derwen ger y man troi a fydd o bosib achosi rhwystr yn yr ardal yma / *Following permission to cut a sycamore tree near the boundary line of marian farm, an oak sapling has now been planted by the turning area which will possibly cause an obstruction.*

14.13 - Dal twll mawr yn y wal môr ger eiddo Tŷ Dewi ym Mhenmon / *Still a large hole in the sea wall by Ty Dewi in Penmon.*

**15. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.15 o'r gloch. Cyfarfod nesaf 7/10/15.

*There was no further business to discuss. The Chairperson thanked everyone for their contribution. Meeting came to an end at 9.15pm. Next meeting 7/10/15.*

Llofnod y Cadeirydd/Signature

Dyddiad/Date